# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Gofal Plant Wyncliffe**

**Ysgol Gynradd Solfach**
**Solfach**
**SA62 6TS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/09/2019

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Gofal Plant Wyncliffe yn wasanaeth gofal dydd llawn sy'n gweithredu o gaban sydd wedi'i addasu'n dda ar dir yr ysgol gynradd yn Solfach. Mae'r gwasanaeth ar gael ar gyfer uchafswm o 19 o blant rhwng oed geni a phum mlwydd oed. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu rhwng 7:30am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Iau a rhwng 7.30am a 5pm ar ddydd Gwener. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, ond defnyddir cryn dipyn o'r Gymraeg hefyd. Y person cofrestredig yw Teresa James. Mae Mrs James hefyd yn un o'r personau â chyfrifoldeb, ynghyd ag Emma Jenkins, Claudine Hayward a Louise Thomas.

## Crynodeb

| **Thema** | **Gradd** |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Da** |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae’r plant yn ddiogel, yn hyderus ac yn hapus iawn yn y gwasanaeth hwn. Cânt gyfleoedd gwych i wella eu sgiliau unigol a'u hannibyniaeth a dilyn eu diddordebau eu hunain. Maent yn cael gofal gan dîm o staff gwybodus a brwdfrydig. Mae'r amgylchedd yn ysgogol ac yn groesawgar a gwneir defnydd da o'r amgylchedd yn yr awyr agored. Caiff y gwasanaeth ei arwain yn gadarn ac yn effeithiol.

### 2. Gwelliannau

Ers cofrestru'r gwasanaeth hwn, mae'r arweinwyr wedi gwneud nifer o welliannau, gan gynnwys: ysgrifennu polisïau newydd lle y nodwyd angen; cynnwys hyfforddiant newydd i'r staff drwy gyfrwng y Gymraeg a gweithgarwch corfforol yn yr ymarfer; darparu mwy o adnoddau i'r plant.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Nid oes unrhyw ofynion nac argymhellion.

## 1. Llesiant Rhagorol

**Crynodeb**

Mae’r plant yn ddiogel, yn hyderus ac yn fodlon iawn yn y feithrinfa hon. Maent yn mwynhau eu chwarae yn fawr iawn ac yn meithrin cydberthnasau cadarn iawn â'i gilydd. Maent yn cael cyfleoedd gwych i ddatblygu eu sgiliau unigol a'u hannibyniaeth ac mae ganddynt ddylanwad cryf ar yr hyn y maent yn ei wneud yn y feithrinfa.

**Ein canfyddiadau**

Mae'r plant yn dangos diddordeb ac wedi'u cyffroi gan yr hyn y maent yn ei wneud yn y feithrinfa hon. Roedd plant o bob oedran yn cymryd rhan lawn yn y gweithgareddau drwy gydol ein hymweliad. Roedd y grŵp hŷn yn arbennig yn mwynhau chwarae rôl. Er enghraifft, gofynnodd plentyn a oedd wedi gwisgo i fyny fel dyn tân ble oedd y tân gyda gwên fawr ar ei wyneb. Gofynnodd plentyn arall i aelod o'r staff a allai edrych yn ei drych a cherddodd yn ei blaen yn llawn balchder mewn 'ffrog briodas' gan ddweud, *"I am going down the cathedral!".* Roedd y plant yn wên o glust i glust ac yn llawn cyffro wrth ddod i mewn ar ôl bod allan, gan ddweud wrthym eu bod wedi bod ar y llong môr-ladron a *"there's a tunnel!".* Roedd y plant yn mwynhau chwarae â set drenau cymaint ar ddiwedd y sesiwn nad oedd unrhyw frys arnynt i fynd adref.

Mae'r plant yn dangos hunangymhelliant i ddechrau eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu gweithgareddau. Gwelsom y plant yn rhannu eu syniadau'n aml a'r staff yn rhoi cymorth iddynt wneud yr hyn roeddent wedi'i ddewis. Er enghraifft, roedd plentyn wedi bod yn creu cadwyni a breichledi o basta a gofynnodd i aelod o'r staff, *"Can we make a pasta for your leg?"* Yna gwnaeth aelod o'r staff helpu plentyn i greu fferled a dewis y deunyddiau roedd am eu defnyddio i'w chreu.

Mae'r plant yn gyfforddus ac yn hyderus iawn ac roeddent wedi meithrin cydberthnasau cadarn â'r oedolion a oedd yn gofalu amdanynt. Roeddent yn mynd at y staff i gael maldod, i gael hwyl gyda nhw ac roeddent yn fodlon rhannu eu newyddion â nhw. Cwympodd un plentyn a chododd ar unwaith a mynd at aelod o'r staff gan ddweud, *“I think I’ll give you a big cuddle.”* Gwnaeth hyn ei chysuro ac aeth yn ôl i chwarae'n hapus.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda iawn ag eraill. Roeddent yn ymwybodol iawn o'r ymddygiad a ddisgwylir ganddynt yn y feithrinfa ac yn gallu trafod hyn. Er enghraifft, roeddent yn gwybod bod 'Mister Potato Head' yn eu hatgoffa o'r 'Rheolau Aur' yn y feithrinfa megis 'clustiau sy'n gwrando' a 'dwylo caredig'. Dywedodd plentyn a oedd yn aros i olchi ei ddwylo, *"It's one at a time.".* Roeddent yn gofyn am gymorth yn hyderus pan oedd ei angen arnynt ac yn rhannu'n dda â'r plant eraill y rhan fwyaf o'r amser.

Roedd y plant yn cael cyfleoedd gwych i ddatblygu eu hannibyniaeth. Gwnaethant godi caws ar eu platiau, golchi a sychu eu platiau, brwsio'r llawr, dod o hyd i'w hetiau eu hunain, gosod eu dillad gwisgo i fyny ar y bachau a thynnu a storio eu hesgidiau cyn mynd i gysgu. Roedd y plant yn cwblhau'r tasgau hyn yn naturiol ac yn hapus.

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r staff yn garedig, yn frwdfrydig, yn llawn cymhelliant ac yn adnabod y plant yn eu gofal yn dda iawn. Maent yn sicrhau bod y plant yn ddiogel iawn ac maent yn creu awyrgylch cadarnhaol a hapus. Mae'r staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd i ddarparu gweithgareddau cyffrous ac i gefnogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau unigol eu hunain yn effeithiol.

### Ein canfyddiad

Mae'r staff yn llwyddo i gadw'r plant yn iach. Roeddent yn darparu bwyd amrywiol a maethlon i'r plant ac yn sicrhau eu bod yn gorfforol egnïol a bod cyfleoedd iddynt chwarae yn yr awyr agored yn rheolaidd. Roedd y staff yn darparu prydau a byrbrydau cytbwys megis llysiau, ffrwythau a chracers. Roeddent yn rhoi cymorth i'r plant mewn gweithgareddau chwarae rhydd dan do ac yn yr ardal awyr agored dan orchudd a gwnaethant hefyd fynd â'r plant allan i chwarae mewn ardaloedd mwy ddwywaith yn ystod ein hymweliad, gan annog y plant i ymarfer eu sgiliau corfforol drwy weithgareddau ysgogol. Roeddent wed bod yn gweithio'n ddiwyd tuag at gyflawni achrediad y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy. Roedd y staff yn dilyn prosesau hylendid da ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom aelod o'r staff yn helpu'r plant i olchi eu dwylo mewn un bowlen o ddŵr a rennir. Rhoddodd y staff a'r arweinwyr sicrwydd i ni nad oedd hyn yn digwydd yn aml ac na fyddai'n digwydd yn y dyfodol.

Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau'n dda i sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel. Roeddent yn hyderus ynghylch eu cyfrifoldebau a'r prosesau diogel i'w dilyn os bydd pryder yn codi mewn perthynas ag amddiffyn plant. Roeddent yn goruchwylio'r plant yn dda ac yn rhoi rhybuddion diogelwch iddynt. Pan ddaeth car i'r safle, sicrhaodd y staff fod y plant i gyd yn eistedd gyda'i gilydd nes bod yr ardal gyfan yn ddiogel. Roedd yn amlwg bod y plant a'r staff yn gyfarwydd â dilyn y broses ddiogelwch hon. Roeddent yn cadw cofnodion clir o ddamweiniau'r plant ac yn sicrhau bod y rhieni'n cael gwybod amdanynt.

Mae'r staff yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol iawn. Roeddent yn siarad â'r plant am ymddygiad yn gadarnhaol ac ar eu lefel. Er enghraifft, pan oedd plentyn yn drist, gofynnodd aelod o'r staff iddo egluro'r hyn a oedd wedi digwydd ac yna awgrymodd eu bod yn mynd gyda'i gilydd i siarad â phlentyn arall, gan lwyddo i ddatrys y broblem mewn ffordd ddigynnwrf. Roedd y staff yn atgoffa'r plant mewn ffordd gadarnhaol i fod yn garedig ac i rannu ac yn atgyfnerthu ymddygiad da drwy eu canmol yn aml a rhoi sticeri iddynt fel gwobrau. Roedd gan y staff agwedd hwyliog iawn drwy gydol y dydd ac roeddent yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd gan arwain at awyrgylch hapus a hamddenol.

Mae'r staff yn diwallu anghenion unigol y plant yn dda ac yn cefnogi datblygiad unigol y plant yn llwyddiannus. Roedd y staff yn ymwybodol o ddiddordebau, hoffterau a sgiliau'r plant. Roeddent yn cynnal arsylwadau pwrpasol ac yn eu defnyddio i lywio eu cynlluniau. Roedd y staff yn y broses o ddatblygu eu system gynllunio ymhellach. Roeddent yn frwd dros gynllunio gweithgareddau cyffrous ac ysgogol, megis ffug briodas, chwarae synhwyraidd amrywiol ac

ysgrifennu ac anfon llythyrau. Gwnaethom glywed rhai aelodau o'r staff yn defnyddio cwestiynau agored i ddatblygu sgiliau meddwl y plant ymhellach. Er enghraifft, pan gollwyd hylif ar y llawr, gofynnodd aelod o'r staff, *“What shall we use to clear that up?”* a arweiniodd at drafodaeth am lieiniau a mopiau. Roedd y staff yn diwallu anghenion y plant yn brydlon yn ystod ein hymweliad, megis sicrhau eu bod yn gallu cysgu yn ôl yr angen, newid eu dillad ar ôl gwlychu mewn gweithgareddau chwarae â dŵr a'u hatgoffa i fynd i'r toiled. Roedd y staff yn rhoi sylw unigol a chadarnhaol i bob plentyn.  Roeddent yn defnyddio'r Gymraeg yn aml ac yn naturiol yn ystod ein hymweliad. Er enghraifft, gwnaethant ddweud *"Wyt ti'n barod?" a "golchi dwylo",* enwi'r lliwiau yn Gymraeg a chanu caneuon Cymraeg drwy gydol y dydd gyda'r plant.

## 3. Yr Amgylchedd Da

**Crynodeb**

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored sy'n ysgogol i'r plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn darparu cyfleoedd dysgu da i'r plant a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel iawn i'r plant.

**Ein canfyddiadau**

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd croesawgar ac ysgogol sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau sy'n addas ar gyfer diddordebau a chamau datblygu'r plant. Roedd yr amgylchedd yn cynnwys amrywiaeth o feysydd dysgu ysgogol ac arddangosfeydd diddorol a oedd yn cynnwys gwaith y plant. Y thema yn y feithrinfa yn ystod ein hymweliad oedd 'dathliadau' ac roedd yr arweinwyr a'r staff wedi creu ardal chwarae rôl ar gyfer priodas a phwyntiodd y plant hŷn ati'n llawn balchder. Roedd yn cynnwys dillad gwisgo i fyny, adnoddau gwneud marciau, cardiau a lluniau o briodasau o ddiwylliannau gwahanol. Roedd pwyslais cryf ar adnoddau naturiol yn y feithrinfa. Er enghraifft, roedd y plant yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o adnoddau chwarae synhwyraidd, megis hadau pwmpen, ceirch a moch coed. Roedd yr arweinwyr hefyd yn darparu llawer o eitemau 'go iawn' megis llwyau, jygiau a phipedi i'r plant eu harchwilio. Yn ogystal â'r byrddau a'r cadeiriau addas iawn a oedd ar gael i'r plant o wahanol oedrannau eu defnyddio i fwyta dan do, roedd cadeiriau a bwrdd bach wedi'u creu o foncyffion yn yr awyr agored. Roedd yr arweinwyr yn adolygu'r amgylchedd yn barhaus. Roeddent yn cylchdroi adnoddau ac yn newid meysydd dysgu a'r arddangosfeydd yn rheolaidd ac roeddent yn y broses o symud y gegin fwd i ardal fwy addas yn ystod ein hymweliad. Roedd labeli dwyieithog yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r amgylchedd.

Mae'r arweinwyr yn darparu'r gofod a'r cyfleusterau sydd eu hangen ar y plant. Roedd y toiledau yn addas ar gyfer y plant hŷn a oedd yn gallu eu defnyddio'n annibynnol gan amlaf, gyda rhywfaint o gymorth i estyn sebon. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn gallu mynd i'r ardal dan orchudd yn yr awyr agored yn ogystal ag ardal chwarae yn yr ardd ac iard fawr lle y gallent redeg, chwarae gemau pêl a reidio treiciau. Roedd yr arweinwyr a'r staff wedi clustnodi ardal i'r plant allu cysgu'n dawel ac roeddent yn sicrhau bod gan y plant ddillad gwely unigol, gan gynnwys pan oeddent yn defnyddio cadeiriau gwthio i gysgu ynddynt. Ar y cyfan, roedd y plant yn gallu cael gafael ar adnoddau heb orfod gofyn am gymorth gan oedolyn.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel iawn. Roedd drws y gwasanaeth ar glo bob amser ac roedd system ddiogel i gael mynediad i'r gwasanaeth. Roeddent yn cadw cofnod o'r ymwelwyr. Roedd yr arweinwyr wedi cwblhau amrywiaeth o asesiadau risg ac roeddent yn eu hadolygu'n rheolaidd. Roeddent yn sicrhau bod mesurau diogelwch ar waith lle y bo'n ofynnol, megis giatiau i sicrhau diogelwch babanod. Roeddent wedi rhoi system ar waith i lanhau'r amgylchedd yn rheolaidd ac i ddilyn prosesau hylendid bwyd diogel. Roedd

yr amgylchedd yn lân ac yn daclus yn ystod ein hymweliad ac roedd yr arweinwyr wedi cofrestru eu busnes â'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

## 4. Arwain a Rheoli Da

**Crynodeb**

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer eu gwasanaeth a chaiff y weledigaeth hon ei chyfleu'n glir. Maent yn rheoli'r gwasanaeth a'r staff yn effeithiol. Mae ganddynt systemau da ar waith i adolygu'r gwasanaeth a gwneud gwelliannau iddo. Mae'r arweinwyr yn creu partneriaethau cadarn sy'n arwain at ganlyniadau gwell i'r plant.

**Ein canfyddiadau**

Mae gan yr arweinwyr ethos a gwerthoedd clir sy'n amlwg ym mholisïau, datganiad o ddiben a gwybodaeth ar-lein y gwasanaeth ac wrth siarad â'r staff Roedd y datganiad o ddiben yn rhoi darlun clir o'r gwasanaeth a ddarperir ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Roedd polisïau'r gwasanaeth yn addas iawn ac yn canolbwyntio ar y plant ac roedd yr arweinwyr yn eu hadolygu'n barhaus gan ysgrifennu polisïau newydd yn ôl yr angen. Er enghraifft, roeddent wedi ysgrifennu polisïau newydd ar werthoedd Prydeinig, e-ddiogelwch, amddiffyn rhag yr haul a phontio i'r ysgol. Roedd yr arweinwyr yn cyfathrebu'n dda ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y sector gofal plant. Cymerodd yr arweinwyr gamau gweithredu ar unwaith mewn perthynas â'r holl faterion a drafodwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae'r person cofrestredig yn rheoli'r staff yn dda. Roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, roeddent yn dangos balchder yn y gwasanaeth ac roeddent yn hoff o'r ffaith bod ganddynt ymdeimlad o berchenogaeth yn y feithrinfa. Roedd yr arweinwyr yn rhoi cyfrifoldebau penodol i'r staff, megis bod yn gyfrifol am gyfle cyfartal, ymddygiad ac iechyd a diogelwch. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod hyfforddiant rheolaidd ar gael i'r staff, a oedd yn cael ei rannu â'r tîm cyfan o staff. Roedd systemau effeithiol ar waith i sefydlu, goruchwylio, arfarnu a chynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd. Gwnaeth y person cofrestredig newid yn y trefniadau staffio ar gyfer un diwrnod yn dilyn ein hymweliad a oedd yn golygu bod nifer addas o staff cymwysedig yn gofalu am y plant bob amser. Roedd yr arweinwyr yn adolygu'r gwasanaeth yn rheolaidd. Roeddent wedi llunio cynllun gwella ar gyfer y lleoliad a oedd yn cynnwys adolygiadau bob tri mis wedi'u rhannu'n gynlluniau gweithredu misol. Roedd pob aelod o'r staff yn cyfrannu at hyn ac roedd syniadau'r plant a'r rhieni yn cael eu hystyried. Yn dilyn ein hymweliad, ysgrifennodd y person cofrestredig adroddiad ar ansawdd y gofal yn unol â'r rheoliadau.

Roedd yr arweinwyr yn meithrin partneriaethau da iawn â'r rhieni. Roeddent yn casglu llawer o wybodaeth am anghenion a dewisiadau'r plant gan y rhieni ac yn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth a llesiant a chynnydd eu plant. Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw ac a gwblhaodd holiaduron AGC yn hapus iawn â'r gwasanaeth a ddarperir. Roedd yr arweinwyr a'r staff wedi meithrin partneriaethau â thîm gofal plant yr awdurdod lleol, darparwyr hyfforddiant a gweithiwr Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy proffesiynol. Roeddent yn gwneud defnydd da o'r ardal leol ac arbenigedd lleol i gyfoethogi

profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, roeddent wedi trefnu i'r gwasanaeth tân ddod ag injan dân i'r gwasanaeth yn ogystal â threfnu teithiau i ddeintyddfa, yr eglwys leol a siopau.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Ddim yn gymwys am mai dyma'r tro cyntaf i'r gwasanaeth gael ei arolygu ers cael ei gofrestru.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dim

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad ôl-gofrestru dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 19 Medi 2019 am tua wyth awr. Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio adnodd SOFI2 er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r plant, y rhieni, y staff a'r person cofrestredig;
- darllen yr holiaduron AGC a ddychwelwyd gan y rhieni;
- rhoi adborth dros y ffôn i'r person cofrestredig ar 27 Medi 2019.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Person Cofrestredig** | **Teresa James** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Emma Jenkins**<br>**Claudine Hayward**<br>**Louise Thomas**<br>**Teresa James** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **19** |
| **Ystod oedran y plant** | **Oed geni hyd at 5 oed** |
| **Oriau agor** | **7:30am i 6pm, o ddydd Llun i ddydd Iau**<br>**7.30am i 5pm, dydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg a Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Ddim yn gymwys am mai dyma'r tro cyntaf i'r gwasanaeth gael ei arolygu ers cael ei gofrestru** |
| **Dyddiadau'r ymweliad arolygu hwn** | **19 Medi 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nod y gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/12/2019